Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Arweiniad i wybodaeth

Ionawr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Arweiniad i wybodaeth

Ionawr 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


Cyflwyniad....1
Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus....1
Y Cynulliad....1
Comisiwn y Cynulliad....2
Sut i ddod o hyd i wybodaeth....2
Iaith....2
Polisi codi tâl....2
Cael gwybodaeth....3
Fformatau eraill....3
Hawlfraint....3
Cwynion....4
Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud?....5
Enghreifftiau o wybodaeth....5
Ble y mae dod o hyd iddi?....5
Y Gwasanaeth Ymchwil....5
Bywgraffiadau a manylion ar gyfer cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad....5
Manylion ar gyfer cysylltu â'r Cynulliad....5
Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario?....6
Cyfrifon blynyddol archwiliedig....6
Gwybodaeth am y gyllideb bob mis ac adroddiadau ariannol am brosiectau neu ddigwyddiadau penodol....6
Gwybodaeth am gyflogau, lwfansau a threuliau Aelodau....6
Graddfeydd cyflog a pholisiau yn ymwneud â lwfansau a threuliau ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad....6
Cyfanswm y treuliau a hawliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Clerc....6
Gweithdrefnau caffael a rhestr o'r contractau presennol....6
Rheoliadau ariannol mewnol....6
Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio?....7
Comisiwn y Cynulliad a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad - Strategaeth ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad....7
Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad....7
Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol....7
Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol....7

**Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau?** ....... **8**
Hysbysiadau busnes ....... 8
Trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor y Cynulliad. ....... 8
Dogfennau a osodwyd gerbron y Cynulliad. Datganiadau Barn a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad ....... 8
Hynt Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau'r Cynulliad ....... 8
Agendâu a phapurau pwyllgorau ....... 8
Ddeisebau ....... 9
Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Comisiwn ....... 9
Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ....... 9
**Ein polisïau a'n gweithdrefnau** ....... **10**
Protocolau, polisïau a gweithdrefnau cyfredol. ....... 10
Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ....... 10
Polisi recriwtio a gwybodaeth am swyddi gwag. ....... 10
Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth, Cod Ymarfer ar Gwynion ....... 10
**Rhestrau a Chofrestrau** ....... **11**
Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ....... 11
Log datgelu ....... 11
**Y gwasanaethau a gynigir** ....... **12**
Pecynnau addysg ar gyfer ysgolion ....... 12
Ymweld â'r Cynulliad ....... 12
Gwybodaeth i newyddiadurwyr ....... 12
Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau ....... 12
Calendr digwyddiadau ....... 12
Gwybodaeth am y Senedd ....... 12

# Cyflwyniad

Mae **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** yn rhoi hawl cyffredinol i unrhyw unigolyn weld gwybodaeth gofnodedig sy'n cael ei chadw gan amrywiaeth eang o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

O dan Adran 19 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gynhyrchu a chadw cynllun cyhoeddi. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu'r cynllun cyhoeddi enghreifftiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ôl y cynllun, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'u busnes arferol.

Yn yr arweiniad hwn, cewch wybod am y math o wybodaeth sy'n cael ei chadw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bob dogfen ac nid oes linc uniongyrchol i bob dogfen sydd ar gael. Er hwylustod, mae'r math o wybodaeth wedi'i rhannu'n grwpiau o ddogfennau sy'n debyg i'w gilydd neu'n gysylltiedig â'i gilydd.

Mae'r rhan helaeth o'r wybodaeth rydym yn ei chynhyrchu ar gael yn electronig yn bennaf. Weithiau, caiff eitemau o wybodaeth eu cyhoeddi ar gopi caled hefyd, fel adroddiadau pwyllgorau a thaflenni, ac ar ffurf glywedol a gweledol amrywiol fel tapiau fideo, ffotograffau, CDs a DVDs.

## Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Mae Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005 (Rheoliadau PSI) yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwneud ailddefnyddio gwybodaeth yn haws ac mae'n ategu deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth fel Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR).

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i ganiatáu ailddefnyddio ei wybodaeth, lle bynnag y mae'n bosibl ac yn rhesymol i wneud hynny. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais i ailddefnyddio ein gwybodaeth, cyfeiriwch at ein Cwestiynau Cyffredin.

Mae'r Arweiniad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gaiff ei chadw gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth a gaiff ei chadw gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998** a dechreuodd ymgymryd â'i swyddogaethau ym mis Gorffennaf 1999.

Ar y dechrau, un corff corfforaethol oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ond, yn ymarferol, roedd wedi'i rannu'n ddwy gangen – y gangen seneddol (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad) a'r gangen lywodraethol (Llywodraeth Cymru).

Sefydlodd **Deddf Llywodraeth Cymru 2006** y Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad) a Llywodraeth Cymru.

## Y Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad a gafodd eu hethol gan bobl Cymru. Y Cynulliad sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r rhan fwyaf o wariant cyhoeddus Cymru, am graffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru ac am ei dwyn i gyfrif. Yn ogystal, mae ganddo bŵer i greu deddfwriaeth (a elwir yn Fesurau'r Cynulliad) mewn meysydd y trosglwyddwyd cyfrifoldeb amdanynt i'r Cynulliad gan Senedd y DU.

## Comisiwn y Cynulliad

Mae Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod o'r gwahanol bleidiau gwleidyddol. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer y Cynulliad. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at y wybodaeth a gyhoeddwn neu y bwriadwn ei chyhoeddi. Mae'n nodi:

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael am y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad ar gael yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/Pages/abthome.aspx**

## Sut i ddod o hyd i wybodaeth

Rydym wedi rhannu'r wybodaeth sydd ar gael yn gyffredinol gan y Cynulliad yn gategorïau eang:

– Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud?

– Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario?

– Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau?

– Ein polisïau a'n gweithdrefnau;

– Rhestrau a chofrestrau;

– Y gwasanaethau a gynigir gennym.

Mae'r Arweiniad hwn yn rhoi manylion am y mathau o wybodaeth sydd ar gael ym mhob categori a sut i gael y wybodaeth honno. Arweiniad yn unig yw'r rhestr hon ac nid yw'n rhestr gyflawn o'r holl wybodaeth sydd ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol.

## Iaith

Cyhoeddir pob gwybodaeth yn unol â **Chynllun Iaith Gymraeg** y Cynulliad Cenedlaethol. Fel arfer mae dogfennau y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio gan y cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau ar ddwy wefan, un yn Saesneg **http://www.assembly.wales** a'r llall yn Gymraeg **http://www.cynulliad.cymru**. Mae'r holl wybodaeth a gynhyrchir yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

## Polisi codi tâl

Byddwn yn ceisio darparu'r holl wybodaeth am ddim. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen codi tâl ar gyfer rhai mathau o wybodaeth yn y categorïau sydd wedi'u rhestru yn yr arweiniad hwn, er enghraifft tapiau sain, tapiau fideo, cryno ddisgiau a disgiau DVD.

## Cael gwybodaeth

Caiff y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Yn aml iawn, mae dogfennau ar gael ar gopi caled hefyd a gallwch ofyn amdanynt drwy ffonio llinell wybodaeth y Cynulliad. Os yw'r wybodaeth ar gael ar fformat electronig yn unig e.e. Cofnod y Trafodion, bydd modd cynhyrchu allbrint o'r wybodaeth i'r sawl nad yw'n bosibl iddynt gael mynediad i'r Rhyngrwyd.

Os hoffech:

– gopïau caled o'r arweiniad (yn Saesneg neu yn Gymraeg);

– copïau caled o unrhyw wybodaeth a gyhoeddir o fewn yr arweiniad hwn;

dylech gysylltu â Llinell Wybodaeth y Cynulliad:

– Llinell Wybodaeth y Cynulliad:**0300 200 6565**

– Gwasanaeth Cyfnewid Testun:Mae gwybodaeth am sut i dderbyn a gwneud galwad drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Testun ar gael ar eu gwefan yn **www.textrelay.org**. Rydym yn croesawu galwadau drwy'r Gwasaneth Cyfnewid Testun.

## Fformatau eraill

Gallwn drefnu i chi gael copi o'r arweiniad hwn mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Gallwn hefyd drefnu i chi gael copïau o'n cyhoeddiadau copi caled, fel taflenni, ar y fformatau hyn, yn ôl y gofyn.

## Hawlfraint

Mae ein cyhoeddiadau'n ddarostyngedig i Hawlfraint y Cynulliad Cenedlaethol. © Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007.

Caniateir i ddeunyddiau, ac eithrio logo'r Cynulliad, gael eu hatgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyhyd ag y cânt eu hatgynhyrchu'n fanwl gywir ac na chânt eu defnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae rhagor o wybodaeth am hawlfraint y Cynulliad Cenedlaethol i'w chael gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu ar y gwefannau a ganlyn:

– Gorchymyn Hawlfraint Seneddol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2007 **http://www.opsi.gov.uk/si/si2007/20071116.htm**

– Gwybodaeth am Reoliadau ailddefnyddio gwybodaeth ar gyfer y sector cyhoeddus:

– **http://www.opsi.gov.uk/advice/psi-regulations/index.htm**

## Cwynion

Os ydych wedi cael trafferth cael gafael ar wybodaeth a gyhoeddir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu os nad ydych yn hapus â'r modd y cafodd eich ymholiad ei drin, mae'r **Cod Ymarfer ar Gwynion** yn rhoi arweiniad ar sut i gwyno am y broses weinyddol a'r modd y byddwn yn delio â'ch cwyn.

Os nad ydym wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn yn foddhaol yn eich barn chi, dylech gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

– Information Commissioner's Office Ffôn: **0303 123 1113**

– Wycliffe House Ffacs: **01625 545 510**

– Water Lane ebost: **casework@ico.org.uk**

– **Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

# Pwy ydym a beth rydym yn ei wneud?

## Enghreifftiau o wybodaeth

Gwybodaeth am y modd y caiff y Cynulliad ei ethol, y gwahaniaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, sut y mae'r Cynulliad yn gweithio, a gwybodaeth am ei bwerau a'i gyfrifoldebau.

– Rôl y Cynulliad

– Rôl y Cyfarfod Llawn

– Rôl pwyllgorau'r Cynulliad.

– Manylion am berthynas y Cynulliad â chyrff deddfwriaethol eraill.

– Gwybodaeth am y Comisiwn gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gwaith a'i brif bolisïau.

– Bywgraffiad o'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad.

– Gwybodaeth am rôl y gwahanol gyfarwyddiaethau a chyfarwyddwyr.

## Ble y mae dod o hyd iddi?

Ar lein: http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/Pages/abthome.aspx.

Ar wefan y Cynulliad mae adran yn dwyn y teitl "**Amdanom ni**". Yn yr adran hon cewch nifer o lincs i dudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth yn y dosbarth hwn.

Mae gan y wefan adran dan y teitl 'Busnes y Cynulliad' sy'n cynnwys lincs i wybodaeth am y Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau. http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/bus-home.aspx

Mae'r daflen "Llawlyfr i'r Cynulliad" ar gael mewn nifer oieithoedd os ewch i:

http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/about_us-publications/Pages/about_us-publications.aspx neu ar gopi caled gan y llinell wybodaeth: **0300 200 6565**.

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaethol y Cynulliad, ac i'r 60 Aelod Cynulliad unigol a'u staff. Pan fo'n briodol cyhoeddir papurau gwybodaeth Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer pwyllgorau pan fydd y pwyllgorau wedi gorffen trafod y mater dan sylw, yn amodol ar ddiwallu gofynion cyfreithiol perthnasol a sicrhau effeithiolrwydd busnes y Cynulliad.

Mae rhagor o wybodaeth a chopïau o bapurau ymchwil ar gael yn http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/research/Pages/research.aspx

## Bywgraffiadau a manylion ar gyfer cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad

Mae gwybodaeth am Aelodau'r Cynulliad ar gael os ewch I http://www.cynulliad.cymru/cy/memhome/Pages/memhome.aspx

## Manylion ar gyfer cysylltu â'r Cynulliad

Mae manylion cysylltu ar gael ar ein gwefan os ewch I http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/Pages/contact-the-assembly.aspx neu mae modd cael y wybodaeth drwy ffonio'r llinell wybodaeth a nodir uchod.

# Beth a gaiff ei wario a sut y caiff ei wario?

## Cyfrifon blynyddol archwiliedig

Mae'r Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir bob mis Gorffennaf yn cynnwys Datganiad o Gyfrifon. Mae'r adroddiad ar gael ar dudalen y Comisiwn ar wefan y Cynulliad.
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgissueHistoryHome.aspx?lId=2850

## Gwybodaeth am y gyllideb bob mis ac adroddiadau ariannol am brosiectau neu ddigwyddiadau penodol

Mae modd gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb gan y llinell wybodaeth.

## Gwybodaeth am gyflogau, lwfansau a threuliau Aelodau

Caiff gwybodaeth am gyflogau a threuliau Aelodau'r Cynulliad ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad: http://www.cynulliad.cymru/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/pay-expenses-financial-interests-standards.aspx

Cyhoeddir manylion am dreuliau Aelodau'r Cynulliad yn
http://www.cynulliad.cymru/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-expenses-2/Pages/mem-expenses-2.aspx

## Graddfeydd cyflog a pholisiau yn ymwneud â lwfansau a threuliau ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad

Cyhoeddir gwybodaeth am delerau cyflogaeth ar gyfer staff ar
http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/working/recruitment/Pages/recruitment.aspx

## Cyfanswn y treuliau a hawliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Clerc.

Bydd y treuliau a hawliwyd gan y Prif Weithredwr yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir ar wefan y Cynulliad. Bydd y treuliau a hawliwyd gan y Cyfarwyddwyr hefyd yn ymddangos yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir.

## Gweithdrefnau caffael a rhestr o'r contractau presennol.

Mae rhestr o'r contractau wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn
http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/abt-procurement/Pages/abt-procurement.aspx.

## Rheoliadau ariannol mewnol

Mae gwybodaeth am weithdrefnau mewnol ar gael o ofyn amdani.

# Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio?

## Comisiwn y Cynulliad a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad - Strategaeth ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Mae'r strategaeth ar gael ar y wefan yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/about_us-commission_publications/Pages/about_us-commission_publications.aspx**.

## Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf, ac mae'r adroddiad ar gyfer 2014-15 ar gael yn **http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgissueHistoryHome.aspx?IId=2850**

## Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol

Mae fersiwn copi caled o'r adroddiad blynyddol archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar gael o fis Gorffennaf drwy'r llinell wybodaeth.

## Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

Cyhoeddir yr Adroddiad Cydraddoldeb ar gyfer 2014-15 ar ein gwefan **http://www.cynulliad.cymru/NAfW%20Documents/Annual-Equality-Report-2014-2015-W.pdf**

# Sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau?

## Hysbysiadau busnes

Cyhoeddir hysbysiadau busnes, agendâu a phapurau ar wefan y Cynulliad yn
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/bus-home.aspx

## Trawsgrifiadau o'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor y Cynulliad.

Gallwch weld darllediadau byw o gyfarfodydd cyhoeddus drwy wefan y Cynulliad yn
http://www.senedd.tv

Caiff trawsgrifiadau dwyieithog o'r Cyfarfodydd Llawn eu cyhoeddi ar y wefan cyn pen 24 awr ar ôl diwedd y cyfarfod.
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=4&category=Record%20of%20Proceedings

Bydd crynodeb o'r hyn a ddigwyddodd ym mhob cyfarfod ar gael yn yr adran Pleidleisiau a Thrafodion, a gaiff ei gyhoeddi cyn pen 30 munud ar ôl diwedd pob cyfarfod. Mae tapiau sain neu gopïau DVD ar gael am £10.00 + TAW drwy ffonio'r llinell wybodaeth. Ers mis Mai 2007, mae trawsgrifiadau ar gael ar wefan y

Cynulliad o bob cyfarfod pwyllgor craffu, pwyllgor deddfwriaethol a phwyllgor sefydlog. Mae copïau ar gael ar dâp sain neu DVD £10.00 + TAW drwy ffonio'r llinell wybodaeth.

## Dogfennau a osodwyd gerbron y Cynulliad. Datganiadau Barn a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cynulliad

Cyhoeddir dogfennau a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad a Datganiadau Barn a gyflwynwyd yn
http://www.assembly.wales/en/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=4&category=Statements%20of%20Opinion.

## Hynt Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau'r Cynulliad

Caiff gwybodaeth am Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau'r Cynulliad eu cyhoeddi yn
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/Pages/bus-legislation.aspx

## Agendâu a phapurau pwyllgorau

Caiff gwybodaeth am bwyllgorau presennol a hen bwyllgorau eu cyhoeddi ar y wefan:
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/committees.aspx

## Ddeisebau

Drwy gyflwyno Deiseb, mae'n bosibl gofyn i'r Cynulliad
Cenedlaethol drafod unrhyw fater y mae gan y Cynulliad bŵer i weithredu yn ei gylch. Cewch ragor o wybodaeth ar y wefan: **http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/e-petitions/Pages/e-petitions.aspx**

## Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Comisiwn

Ac eithrio gwybodaeth a gaiff ei hystyried yn breifat i'r cyfarfod, caiff agendâu, papurau a chofnodion y Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad cyn pen chwe wythnos ar ôl y cyfarfod.
Mae papurau y Comisiwn i'w cael ar y wefan:
**http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=258&$LO$=1**

## Agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli

Caiff papurau'r Bwrdd Rheoli eu cyhoeddi yn:
**http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CommitteeId=381**

# Ein polisïau a'n gweithdrefnau

## Protocolau, polisïau a gweithdrefnau cyfredol.

Mae modd gweld polisïau a gweithdrefnau ar ein gwefan http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission-policies/Pages/abt-commission-policies.aspx ac mae modd defnyddio'r blwch chwilio i ddod o hyd i bolisi neu weithdrefn unigol. Mae'n bosibl mai dim ond ar gopi caled y mae rhai dogfennau i'w cael a dylid gwneud ceisiadau amdanynt drwy'r llinell wybodaeth.

## Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Rheolau Sefydlog y Pedwerydd Cynulliad i'w gweld yn http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx

## Polisi recriwtio a gwybodaeth am swyddi gwag.

Cewch wybodaeth am weithio gyda Chomisiwn y Cynulliad ynghyd â manylion y swyddi gwag presennol ar ein gwefan: http://www.cynulliad.cymru/cy/gethome/working/recruitment/jobs/Pages/jobs.aspx

## Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth, Cod Ymarfer ar Gwynion

Mae'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd weld Gwybodaeth i'w weld ar y wefan http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx a'r Cod Ymarfer ar Gwynion ar y wefan http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx

# Rhestrau a Chofrestrau

## Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Cynulliad. Mae hon ar gael yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/Pages/mem-register.aspx**

Cyhoeddir cofrestr o'r rhoddion y mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd wedi'u cael yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-presiding-officer/Pages/po-gifts.aspx**

## Log datgelu

Mae'r Log Datgelu yn rhoi manylion y wybodaeth a gaiff ei rhyddhau mewn ymateb i geisiadau a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Cyhoeddir y gofrestr yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/Pages/OtherBusiness.aspx?category=FOI**

# Y gwasanaethau a gynigir

## Pecynnau addysg ar gyfer ysgolion

Mae **Hafan Dysgu** ar wefan y Cynulliad yn darparu gwybodaeth amrywiol i'w defnyddio gan y sector addysg.

## Ymweld â'r Cynulliad

Cynnal digwyddiad neu arddangosfa yn y Senedd

Mae gwybodaeth am deithiau tywys a chynnal digwyddiadau yn y Senedd i'w gweld ar ein gwefan yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/visiting/Pages/visiting.aspx**

## Gwybodaeth i newyddiadurwyr

Mae pecyn gwybodaeth i'r cyfryngau wedi'i gyhoeddi yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/newhome/press-area/Pages/new-mediapack.aspx**

## Datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau

Mae datganiadau i'r wasg a hen ddatganiadau i'r wasg wedi'u cyhoeddi yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/newhome/Pages/News.aspx?assembly=4**

## Calendr digwyddiadau

Mae calendr digwyddiadau a chalendr busnes wedi'i gyhoeddi yn **http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgCalendarMonthView.aspx?GL=1&bcr=1**

## Gwybodaeth am y Senedd

Cyhoeddir gwybodaeth eang am y Senedd yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/visiting/senedd/Pages/senedd.aspx**